
Ffordd Cymru
The Wales Way

# Ffordd y Gogledd

Taith fer trwy'r canrifoedd

ffforddcymru.cymru



gogleddddwyraincymru.cymru | dewchigonwy.org.uk | visitsnowdonia.info/cy | croesomon.co.uk

# Cyrraedd yma


Mae Cymru yn hygyrch o holl brif ddinasoedd y DU, gan gynnwys Llundain, Birmingham, Manceinion a Lerpwl. Gwasanaethir Cymru gan ei maes awyr rhyngwladol ei hun, Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd (CWL), sydd â dros hanner cant o hediadau uniongyrchol yn cynnwys prif ddinasoedd Ewrop a dros fil o gyrchfannau cysylltiol ledled y byd. Mae Cymru hefyd yn agos at feysydd awyr Bryste (BRS), Birmingham (BHX), Manceinion (MAN) a Lerpwl (LPL).

Dwyawr ar y trên o Lundain

Tair awr ar y draffordd o ganol Llundain; awr ar y ffordd o Lerpwl, Manceinion, Bryste a Birmingham.

Mae Maes Awyr Caerdydd yn cynnig hediadau uniongyrchol ledled Ewrop a chysylltiadau byd-eang trwy Feysydd Awyr Doha, Schipol a Dulyn
**maesawyr-caerdydd.com**

Cysylltiadau fferi uniongyrchol o borthladdoedd Iwerddon.




Er y gwnaed pob ymdrech i sicrhau cywirdeb yn y cyhoeddiad hwn, ni all y cyhoeddwyr dderbyn unrhyw atebolrwydd am unrhyw gamgymeriad, anghywirdeb neu unrhyw beth sydd wedi'i adael allan, neu am unrhyw fater sy'n gysylltiedig â chyhoeddi'r wybodaeth neu sy'n codi yn sgil hynny. Gwiriwch yr holl brisiau a chyfleusterau cyn i chi fynd ati i archebu. Pan fyddwch wedi gorffen â'r llyfryn hwn, rhowch ef i ffrind neu ei roi mewn cynhwysydd ailgylchu addas.

# Crwydro Ffordd Cymru

Un daith epig, tri llwybr unigryw yw Ffordd Cymru - Ffordd y Gogledd, Ffordd yr Arfordir a Ffordd Cambria - sy'n eich arwain ar draws gwlad o gestyll, ar hyd yr arfordir a thrwy ein cefn gwlad mynyddig.

Mae **Ffordd y Gogledd** yn mynd am 75 milltir / 120km heibio cestyll nerthol ac ymlaen trwy Ynys Môn.

Rydym wedi torri'r daith i lawr yn gyfres o ddarnau byrrach, gan ei bod yn pasio trwy rai o gyrchfannau twristiaeth amrywiol Cymru - **Gogledd Ddwyrain Cymru, Sir Conwy, Eryri Mynyddoedd a Môr, ac Ynys Môn.** Ym mhob cyrchfan rydym yn cynnig llefydd i chi ymweld â nhw trwy'r flwyddyn - y cyfan o dan y penawdau **Antur, Treftadaeth, Tirwedd, Bwyd a Diod, Cerdded** a **Golff.**


Peidiwch a meddwl bod y 'Ffordd' hon yn rhywbeth cwbl anhyblyg. Fframwaith yw Ffordd Cymru, gyda llawer o gyfleoedd i fynd yn igam ogam ac i archwilio Cymru mewn rhagor o ddyfnder.

**Mwynhewch y Daith.**

## Cynnwys



**04** Gogledd Ddwyrain Cymru
**08** Sir Conwy
**12** Eryri Mynyddoedd a Môr
**16** Ynys Môn
**20** Antur - manylion a map
**22** Treftadaeth - manylion a map
**24** Tirwedd - manylion a map
**26** Bwyd a Diod - manylion a map
**28** Cerdded - manylion a map
**30** Golff - manylion a map
**Clawr cefn:** Trosolwg Ffordd Cymru


**Gwybodaeth bellach**
gogledddwyraincymru.cymru
dewchigonwy.org.uk
visitsnowdonia.info/cy
croesomon.co.uk



Ffordd y Gogledd
Ffordd yr Arfordir
Ffordd Cambria

Fforđđ Cymru
The Wales Way



# Fforđđ y Gogleđđ: Gogleđđ Dđwyrain Cymru

Llangollen

fforđđcymru.cymru



Mae Gogledd Ddwyrain Cymru, sy'n cynnwys 25 milltir / 40km o Ffordd y Gogledd rhwng y ffin â Lloegr a chyrchfan glan môr Y Rhyl, yn gartref i draethau tywodlyd, dyffrynnoedd afon coediog, cestyll canoloesol a threfi marchnad hardd. Ewch oddi ar y llwybr arferol i ddarganfod bryngeiri dramatig o'r Oes Haearn, adfeilion treftadaeth ddiwydiannol, ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

## Antur

Mae digon yma i gael eich calon i guro. Mae antur dan do ym mhobman yn **SC2** Y Rhyl, lle mae llithrennau dŵr fel yr Anaconda brawychus a'r Speedster tair lôn yn siŵr o godi tonnau. Ceir cwrs **TAG Active**, hefyd, cwrs ymosod sy'n cynnwys pontydd, siglenni a chyfarpar dringo sy'n agored i rai mentrus o bob oed (meddyliwch am Ninja Warrior ar y teledu). Os am antur awyr agored, beiciwch, rhedwch neu cerddwch y llwybrau yn **One Planet Adventure** yng Nghoed Llandegla, Sir Ddinbych.

Profwch nad ydych ofn uchder trwy fynd am dro (neu gymryd taith ar gwch) dros **Draphont Pontcysyllte**, sy'n rhan o Safle Treftadaeth y Byd 11 milltir / 17.7km sy'n cludo Camlas Llangollen dros Ddyffryn Dyfrdwy ar uchder sylweddol o 128 troedfedd / 39m. Fel arall, rhowch naid i'r cyfrwy am garlam iachusol ar hyd draeth Talacre yng **Nghanolfan Farchogaeth Bridlewood** nid nepell o Brestatyn.


SC2, Y Rhyl

## Treftadaeth

Yng **Nghanolfan Grefft Rhuthun**, cewch weld gwaith pobl greadigol o ledled y DU (popeth o serameg a gwaith gwydr i decstilau a gemwaith). Yn dilyn hynny, casglwch gofroddion unigryw i fynd adre gyda chi o'r oriel adwerthu. Cewch flas ar hanes yn symud o flaen eich llygaid trwy fynd ar **Reilffordd Treftadaeth Llangollen**, wrth i hen drên stêm fynd â chi trwy harddwch Dyffryn Dyfrdwy.

Daw diwylliant yn fyw yn **Nhŷ Pawb**, yng nghalon ardal fanwerthu annibynnol Wrecsam; dyma ofod cymunedol unigryw sy'n cyfuno arddangosfeydd celf a pherfformiadau theatrig. Ychydig i lawr y lôn, cadwch lygad am **Eglwys Plwyf San Silyn**, eglwys ganoloesol fwyaf Cymru, lle mae bedd y masnachwr enwog, Elihu Yale. Am noson fawr allan, ewch i **Theatr Clwyd** yn Yr Wyddgrug. Dyma leoliad bywiog sy'n lwyfan i ddramâu, pantomeimiau a sioeau cerdd, ochr yn ochr â'r holl ffilmiau diweddaraf ym myd y sinema.


Canolfan Grefft Rhuthun

## Tirwedd

Mae Gogledd Ddwyrain Cymru yn gyforiog o leoedd syfrdanol - boed yn gyfarwydd neu'n gyfrinachau cudd. Mae statws Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy fel Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn siarad drosto'i hun. Gyda chopaon ei bryniau yn borffor o flodau'r grug, ei bryngeiri Oes yr Haearn a safleoedd hanesyddol megis **Abaty Glyn y Groes** a **Chastell y Waun**, mae'n llawn dop o olygfeydd cerdyn post.

Un o'r mannau llai amlwg yw'r rhamantus **Ddyffryn Ceiriog**, lle mae Afon Ceiriog yn disgyn i'r Afon Ddyfrdwy o uchder o 1,800 troedfedd/548m uwch lefel y môr dros gyfres o raeadrau. Disgrifiwyd y man hwn gan y cyn Brif Weinidog David Lloyd George fel 'darn bach o'r nefoedd ar y ddaear'. Rydym yn ffyddiog y byddwch chi'n cytuno. **Castell y Fflint** oedd y gaer gyntaf a adeiladwyd yng Nghymru gan Edward y Cyntaf, ac fe saif ar y lan lle mae'r Ddyfrdwy yn lledu ar ei ffordd tua'r môr.


Safle Treftadaeth y Byd Traphont a Chamlas Pontcysyllte

## Bwyd a Diod

Mae tiroedd ffrwythlon Gogledd Ddwyrain Cymru yn golygu bod cyflenwad toreithiog o gynnyrch lleol blasus. Ewch yn syth at y tarddiad ar **Ystâd Rhug** yng Nghorwen, fferm organig

wobrwyedig sydd â bwytai seren Michelin ymhlith ei chwsmeriaid. Gallwch brynu popeth o gig oen Cymreig brau i gaws cyfandirol llawn blas yn y siop fferm, neu gadewch i rywun arall wneud y gwaith coginio drosoch chi trwy fynd am bryd i'r **Bison Grill Bistro**.

Mae mwy o ddanteithion lleol i dynnu dŵr o'ch dannedd ar gael yn Siop Fferm **Hawarden Estate Farm Shop**. Chwiliwch y silffoedd am gynnyrch Cymreig anhygoel, cymerwch frechdan o fara wedi'i bobi'n ffres, a chasglwch eich ffrwythau a'ch llysiau eich hun yn ystod misoedd yr haf. Unwaith y byddwch chi'n teimlo'n sychedig, ewch draw i **Fragdy Magic Dragon** ym Mharc Hamdden y Plasau ger Wrecsam am frag sydd wedi ennill gwobrau cwrw annibynnol.


Siop Fferm Hawarden Estate Farm Shop

## Cerdded

P'un a ydych yn chwilio am dro bach hamddenol neu fan cychwyn i fynd i ddarganfod Bryniau Clwyd, mae **Parc Gwledig Loggerheads** ger Rhuthun yn rhoi digon o resymau i chi roi eich 'sgidiau cerdded ymlaen. Mae Llwybr Darganfod yn bwrw goleuni ar hanes mwyngloddio plwm yr ardal, tra bod rhwydwaith o lwybrau wedi'u harwyddo yn arwain y ffordd i ddarganfod tirwedd o ddyffrynnoedd coediog, creigleoedd garw, a chlogwyni blaenllym. Mae **Coed Melin y Nant** a **Choed Plas Power** ger Wrecsam yn cynnwys 104 erw / 42 hectar o goetir, cors a glaswelltir hynafol, sy'n gartref i ystod liwgar o anifeiliaid a phlanhigion gwyllt yn cynnwys glas y dorlan, boneddiges y wig (orange tip butterfly) a gwyddfid peraroglus. Gallwch hefyd fentro i **Erddig**, plasty a adeiladwyd ym 1683 ac sydd yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae'n esiampl o blasty sy'n dangos y gwahaniad rhwng y teulu ar un llawr a'r gweision ar lawr arall, ac yn cynnwys gerddi ysblennydd a gŵyl afalau bob hydref. Os am gyfuno natur a hanes, ewch i **Barc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas** ger Treffynnon. Mae'r rhwydwaith o lwybrau, sydd wedi ei wasgaru dros 70 erw / 28 hectar, yn datgelu nentydd, llynnoedd a choetiroedd brith, ynghyd â chofebau hanesyddol a maes chwarae awyr agored enfawr i ymwelwyr iau.


Parc Gwledig Loggerheads

## Golff

Mae pob un o ddeunaw twll **Yr Wyddgrug** yn bleser i'w chwarae, ac mae'r cwrs wedi cael enw da ei lewntydd a'i ffyrdd teg (fairways) perffaith. O ganlyniad i'w leoliad ucheldirol, gall hefyd hawlio golygfeydd godidog dros Fryniau Clwyd. Mae rhagor o olygfeydd dros Glwyd i'w gweld o **Glwb Golff Rhuddlan**, cwrs parcdir cymhedrol fryniog sydd yn aml yn leoliad digwyddiadau Pencampwriaeth Sirol a Chenedlaethol.

Mae'r **Plasau**, cwrs naw twll ger Wrecsam, yn gwrs parcdir prydferth arall. Cafodd y cwrs ei ddylunio gan Keith Williams, cyn-hyfforddwr Ian Woosnam, ac mae llynnoedd, nentydd a choed derw aeddfed yn amgylchynu'r ffyrdd teg tonnog ond cymhedrol.


Clwb Golff Yr Wyddgrug

### Am fwy o wybodaeth

am bethau i'w gwneud a llefydd i aros ewch i: **gogleddddwyraincymru.cymru/fforddygogledd**



Bae Llandudno, Trwyn y Fuwch a'r Gogarth



# Ffordd y Gogledd: Sir Conwy

Mae'n cynnwys oddeutu 25 milltir / 40km o Ffordd y Gogledd, ac mae tirwedd Sir Conwy o fynyddoedd cadarn, dyffrynnoedd afon gleision ac arfordir ewynnog yn llawn drama. Gyda chestyll mawreddog sydd fel pe baent yn syth o dudalennau stori dylwyth teg, cyrchfannau arfordirol diamser a gerddi ysblennydd i'w darganfod, bydd gennych hen ddigon o resymau i adael y llwybrau arferol.

## Antur
Cynnwrf ac antur yw un o arbenigeddau Sir Conwy. Mae **Tir Prince** yn addo llawer o gyffro i'r teulu cyfan gyda'i reidiau cyflym ffigar-êt a thrac go-cartio ac mae yna rasys harnes arddull Americanaidd yn cael eu cynnal yn ystod misoedd yr haf. Cychwynnwch ar eich antur i fyd yr anifeiliaid yn **Sŵ Fynydd Bae Colwyn**. Yno, cewch weld anifeiliaid prin sydd dan fygythiad, megis pandaod coch, llewpardiaid yr eira a theigrod Swmatraidd. Archebwch brofiad 'cwrdd ag anifail' i gael golwg agosach ar eich hoff anifail yn y sŵ.

Does dim rhaid i chi fod wrth y môr i syrffio. Yn **Adventure Parc Snowdonia** yn Nyffryn Conwy, gallwch ddal y don berffaith ar lagŵn bwrpasol yng nghanol y tir, a mwynhau anturiaethau dan do yn Adrenaline Indoors, cwrs ymosod pob-tywydd sy'n cynnwys gwifrau gwib, llithrennau a waliau dringo.



Adventure Parc Snowdonia

## Treftadaeth
Ag yntau'n bwrw'i gysgod dros y dref, allwch chi ddim methu **Castell Conwy**. Mae'r gaer ganoloesol urddasol hon yn un o'r mwyaf trawiadol yn Ewrop (ac ar ben hynny, yn Safle Treftadaeth y Byd). Os am gael y profiad llawn, mae'n rhaid dringo'r grisiau troellog a chymryd taith uchel ar hyd furiau'r dref. Gallwch ddysgu mwy am hanes y dref yng **Nghanolfan Ddiwylliant Conwy**, canolfan gelfyddydau a threftadaeth newydd wedi ei lleoli mewn adeilad gwydr trawiadol sy'n edrych allan dros y castell a muriau'r dref.

I gael golwg ar ochr greadigol Sir Conwy, ewch i'r **Academi Frenhinol Gymreig**, lle gallwch weld a phrynu darnau celf o waith artistiaid Cymreig newydd a chyfarwydd. Mae rhywbeth newydd i'w weld yma o hyd, gan fod gan yr Academi raglen newidiol o arddangosfeydd sy'n rhoi llwyfan i bopeth o baentiadau i gerfluniau.


Castell Conwy

## Tirwedd
Mae arfordir a chefn gwlad Sir Conwy yn llawn golygfeydd ysbrydoledig. Mae glannau a thywod symudol Gwarchodfa Natur Leol **Twyni Cinmel** yn gartref i doraith o adar, planhigion morol prin, a hyd yn oed ambell forlo. Ewch yn uwch trwy ddringo'r llwybr troellog ar hyd ochr ddeheuol **Mynydd Conwy** i gyrraedd **Bwlch Sychnant**, un o dirnodau llai adnabyddus Eryri. Eich gwobr fydd golygfeydd syfrdanol i lawr y dyffryn serth a chreigiog, gyda'r môr y tu draw. Cadwch lygad hefyd am ferlod gwyllt enwog Sychnant.

Mae **Gardd Bodnant** yn Nyffryn Conwy yn 80 erw / 32 hectar o dirwedd prydferth Gogledd Cymru, wedi ei harddu trwy ychwanegu lewntydd cymen, terasau blodeuog, glynnoedd gwyllt a choed mawreddog lle mae'r tymhorau yn creu caleidesgop o liwiau sy'n newid yn gyson.


Twyni Cinmel

## Bwyd a Diod
Am fwyd gyda golygfa, ewch draw at **Bryn Williams ym Mhorth Eirias**, sydd â'i fwyty dafliad carreg yn unig o'r dŵr ar lan môr bywiog Bae Colwyn. Cafodd ei enwi yn Fwyty'r Flwyddyn Cymru yn 2019 gan yr AA, ac mae ei fwydlen, sy'n cynnwys bwyd môr lleol (rhowch gynnig ar y cregyn gleision), cig ffres o'r fferm a chynnyrch tymhorol, yn cynnwys rhywbeth fydd at ddant

pawb. Torrwch eich syched trwy fynd am daith o amgylch **Gwinllan Conwy**, lle cewch ddysgu sut caiff y gwinoedd gwobrwyedig eu creu (a chael cyfle i flasu rhai ohonynt). Os oes gennych chi ddant at bethau melys, ddylech chi ddim colli'r cyfle i ymweld â **Siocledyddion Artisan Baravelli's** yng Nghonwy. Dyma'r unig fan yng Nghymru lle caiff siocled ei greu 'o'r ffeuen goco i'r bar', ac mae'n llawn dop o ddanteithion blasus wedi eu crefftio'n gywrain.

Bryn Williams ym Mhorth Eirias



## Cerdded

Does dim prinder o deithiau cerdded arbennig yn Sir Conwy. Cewch dri llwybr wedi eu harwyddo ar lannau dyfroedd pefriog Llyn Crafnant ger Llanrwst, yn amrywio o dro byr a hygyrch trwy goed a choetiroedd i 2.9 milltir / 4.7km ar **Lwybr Golygfa Crafnant**, sy'n dringo i gynnig golygfeydd pell dros Eryri, ei mynyddoedd a'i choedwigoedd. Mae rhwydwaith o lwybrau yn britho **Mynydd Conwy**, (801 troedfedd / 244m), lle gallwch ddod o hyd i adfeilion bryngeiri Oes yr Haearn ac olion cytiau crwn Neolithig (heb sôn am olygfeydd pell ac ysblennydd tua chadwyn fynyddoedd y Carneddau).

Cewch gip ar agwedd wahanol ar dref brysur Llandudno trwy ymlwybro i gopa **Pen y Gogarth**. Mae dewis da o lwybrau i gyrraedd copa'r mynydd bychan hwn, yn amrywio o'r **Llwybr Natur** troellog sy'n 4 milltir / 6.5km o hyd, i **Lwybr y Fach**, llwybr byr sy'n 1.5 milltir / 2.4km o hyd. Gallwch hefyd gyrraedd y copa ar dramffordd ffwnicwlar Pen y Gogarth.


Llyn Crafnant



## Golff

Mae Sir Conwy yn gartref i glybiau golff rhagorol - rhai bach a mawr. Sefydlwyd **Clwb Golff Conwy (Sir Gaernarfon)** ym 1869 trwy dorri ychydig dyllau i'r pridd, ond ers hynny mae wedi dod yn un o gyrsiau lincs enwocaf ac mwyaf heriol y DU. Mae'n gwrs eithaf anodd, hyd yn oed ar ddyddiau tawel, ond pan fydd y gwynt yn rhuo o'r môr, mae rownd gyda sgôr isel yn gamp a hanner. Does dim rhyfedd ei fod wedi dod yn lleoliad poblogaidd i gynnal cystadlaethau fel Pencampwriaeth Agored Cymru a Chwpan Curtis. Heb os, mae **Parcdir Abergele**, sydd yng nghysgod Castell Gwrych, gyda golygfeydd môr godidog, yn un o glybiau prydferthaf Gogledd Cymru. Gyda'r ffyrdd teg llydan yn llawn bynceri a llesteiriau dŵr (water hazards), tydi'r golff ddim yn ddrwg chwaith. Mae **Clwb Golff Penmaenmawr**, gyda'i naw twll a'i leoliad rhwng mynydd a môr, yn gwrs hardd arall. Er mai bychan yw ei faint, mae'n cynnwys digon o her, gyda'r ffyrdd teg wedi eu rhannu â waliau cerrig sychion sy'n aros am unrhyw bêl aiff ar gyfeiliorn.

Clwb Golff Conwy



### Am fwy o wybodaeth

am bethau i'w gwneud a llefydd i aros ewch i:
**cy.visitconwy.org.uk/syniadau-ac-ysbrydoliaeth/ffordd-y-gogledd**


Ffordd Cymru
The Wales Way

# Ffordd y Gogledd: Eryri Mynyddoedd a Môr



Nant Gwynant | fforddcymru.cymru

Yn yr adran hon, rydym yn eich cyflwyno i'r rhan o Ffordd y Gogledd sy'n teithio trwy ardal Eryri Mynyddoedd a Môr. Mae'r rhanbarth yn enwog nid yn unig am ei gopaon garw a chreigiog, ei gestyll byd-enwog a'i lwybrau cerdded, ond hefyd am arfordir syfrdanol. Mae'n bosib mai'r darn mwyaf syfrdanol yw o amgylch Penrhyn Llŷn, ac oherwydd hynny, rydym wedi ychwanegu gwyriad bach o'r llwybr i chi gael mwynhau'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol hon, na allwch ei methu.



## Antur

Mae **Eryri Mynyddoedd a Môr** yn gyrchfan sy'n siŵr o'ch bywiogi. Mae yma fynyddoedd i'w dringo a moroedd i ymdrochi ynddynt - heb sôn am lu o atyniadau fel Parc Teuluol hynod wyrdd **Gelli Gyffwrdd** ger Caernarfon, lle gallwch fachu reid ar y rollercoaster ecogyfeillgar cyntaf yn y byd i gael ei bweru gan bobl, a Solar Splash, y reid cyntaf yn y DU i gael ei bweru gan ynni'r haul.

Mae gwifrau gwib yn arbenigedd lleol. Ac nid gwifren wib gyffredin, ond y cyflymaf yn y byd. Fe ddewch o hyd i hwn yn **Zip World Chwarel y Penrhyn**, lle mae modd i chi - os meiddiwch - wibio ar hyd gwifren sy'n filltir o hyd ar gyflymder torri record o 100mya/160kya. Gall y sawl sy'n mwynhau chwaraeon dŵr fynd i hwylio a chaiacio ar ein moroedd, ein afonydd a'n llynnoedd. Mae **Llyn Padarn** yn Llanberis, sydd wedi ei amgylchynu â mynyddoedd ac yn un o lynnoedd naturiol mwyaf Cymru, yn berffaith ar gyfer rhwyf-fyrddio.


Zip World Velocity 2

## Treftadaeth

Mae'r rhanbarth hwn wedi gweld y cyfan - o frwydrau canoloesol i arloesi diwydiannol. Gwaddol hynny yw safleoedd hanesyddol gwirioneddol aruthrol megis **Castell Caernarfon**, Safle Treftadaeth y Byd sy'n dominyddu'r dref. Peidiwch â methu allan ar Gaernarfon ei hun, chwaith; mae'n cynnig strydoedd culion atmosfferig, waliau'r dref, datblygiadau modern ar y cei a sîn fwyd gyfoes.

Saif castell arall - ond un gwahanol iawn - ar gyrion Bangor. Plasty crand a adeiladwyd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yw **Castell Penrhyn** ac fe'i adeiladwyd â'r cyfoeth aruthrol a ddaeth yn sgil diwydiant llechi Gogledd Cymru. Am gipolwg gwefreiddiol i'r oes honno, ewch i **Amgueddfa Lechi Cymru** yn Llanberis. Mae'n brofiad dilys sy'n hoelio'r sylw, a hynny am y rheswm mai'r hyn ydyw'r 'amgueddfa', mewn gwirionedd, yw'r hen weithfeydd llechi wedi eu gadael yn union fel pe bai'r gweithwyr newydd adael eu hoffer a 'chlocio allan' am y tro olaf.


Castell Dolbadarn

## Tirwedd

Mae **Parc Cenedlaethol Eryri** yn ymestyn dros ardal anferth o 823 milltir sgwâr / 2,132 cilomedr sgwâr yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru. Fe'i enwir ar ôl copa 3,560 troedfedd / 1,085m yr Wyddfa, sef mynydd uchaf y DU i'r de o Ucheldiroedd yr Alban. Er mai'r Wyddfa sydd, wrth reswm, yn denu'r mwyaf o sylw, dim ond un ydyw ymhlith 14 o fynyddoedd 'go iawn' o fewn y Parc. Er mwyn cael cip ar rai o'r rhain, ewch oddi wrth yr arfordir a dilyn yr A5 ar hyd **Dyffryn Ogwen** ddirgel, llwybr syfrdanol a hanesyddol sy'n mynd â chi trwy ganol gwylltir cefn gwlad.

O ddychwelyd at yr arfordir, mae'r **Fenai** yn gwahanu Ynys Môn o dir mawr Cymru. Mae'r ddyfrffordd gul, gysgodol, lanwol hon, sydd â riffiau, traethau a chlogwyni ar hyd ei glannau, yn gartref i gyfoeth o fywyd morol. Os am un o'r golygfeydd gorau, cerddwch hanner ffordd ar draws y Fenai ar hyd y pier ym Mangor, sydd yn dyddio o Oes Fictoria ac sydd wedi ei adnewyddu yn llwyr yn ddiweddar. Byddwch yn siŵr o fod eisiau treulio peth amser yng nghanol godidowgrwydd arfordirol Llŷn, hefyd, felly cymerwch wyriad arall ar hyd asgwrn cefn y penrhyn, lle mae clogwyni môr aruthrol, baeau paradwysaidd a phentiroedd gwyntog yn eich disgwyl.


Cwm Idwal

## Bwyd a Diod

Mae llond pantri o gynnyrch lleol o'r tir a'r môr yn golygu bod y sîn fwyd yn un flasus. Mae popeth ar y fwydlen, o'r ciniawa coeth i'r marchnadoedd ffermwyr, ac o'r bistros trefol i'r caffis cŵl. Mae **Caffi Blue Sky** ym Mangor yn enghraifft dda. Mae bwydlen dymhorol ac amrywiol y bwyty hwn yn seiliedig, lle bynnag y bo modd, ar gyflenwyr lleol a chynnyrch organig. Un o'r cyflenwyr hynny yw gwinllan gyfagos **Pant Du** ym Mhenygroes, lle cynhyrchir seidr a sudd afal yn ogystal â gwinoedd cochion, pefriog a rosé.

Os ydych yn ffan o yfed jin (a phwy sydd ddim, y dyddiau hyn?) ewch am daith o amgylch **Distyllfa Aber Falls** yn Abergwyngregyn ger Bangor. Mae'r ddistyllfa arloesol hon, un o bedair yn unig a leolir yng Nghymru, yn cynhyrchu wisgi a gwirodydd hefyd.


Pant Du ym Mhenygroes

## Cerdded

Mae'r amrywiaeth o brofiadau awyr agored sydd ar gael yma yn un i ryfeddu ati - o'r llwybrau ysgafn gydag arwyddion i'r heriau mynyddig o fri - ac maent oll yn dod law yn llaw â golygfeydd syfrdanol.

Rheswm arall dros ymweld â Distyllfa Aber Falls (gweler uchod) yw **cylchdaith Rhaeadr Fawr**, Dyma lwybr 4.5 milltir / 7.5km i'r teulu cyfan, sy'n dilyn dyffryn prydferth at y **rhaeadr rhyfeddol**.

Os am rhywbeth ychydig yn fwy heriol, dilynwch gylchdaith 5.75 milltir / 9.25km **Aberglaslyn, Llyn Dinas** a **Chwm Bychan** sy'n mynd â chi heibio i rai o'r golygfeydd prydferthaf trwy Eryri, yn cynnwys harddwch **Bwlch Aberglaslyn**, pentref **Beddgelert** a dyfroedd tawel **Llyn Dinas**. I brofi calon ac enaid Eryri, dringwch i gopa'r **Wyddfa** ar hyd **Llwybr Llanberis**, yr hiraf a'r mwyaf graddol o'r chwe llwybr sy'n arwain i'r copa (mae'n 9 milltir / 14.5km i'r copa ac yn ôl).


Beddgelert

## Golff

Mae Parc Cenedlaethol Eryri yn gartref i un o gyrsiau golff mwyaf eiconig Cymru ac, yn wir, y DU. Mae cwrs pencampwriaeth 27 twll **Nefyn a'r Cylch** wedi cael ei gymharu i 'chwarae golff ar fwrdd llong ryfel'. Mae'n brofiad sy'n ddigon i'ch dychryn, ond yn un sy'n rhoi boddhad mawr; ac fe saif ar benrhyn bychan sy'n ymestyn i'r môr.

Mae **Clwb Golff Tref Frenhinol Caernarfon** yn glwb arall sydd â golygfeydd morol - dros y Fenai, y tro hwn (ac mae golygfeydd mynyddig gwych hefyd). Mae'n gwrs parcdir deunaw twll heriol gyda lewntydd esmwyth a ffyrdd teg glaswelltog. Mae clwb golff deunaw twll parcdir **Sant Deiniol** ym Mangor hefyd yn cynnig golygfeydd arbennig dros fynydd a môr.



Clwb Golff Nefyn a'r Cylch

Clwb Golff Nefyn © Hawlfraint y Goron Croeso Cymru

### Am fwy o wybodaeth

am bethau i'w gwneud a llefydd i aros ewch i:
**visitsnowdonia.info/cy/ffordd-y-gogledd**

# Fforðð y Gogleðð: Ynys Môn



Biwmares, Ynys Môn

fforððcymru.cymru

Ystyrir Ynys Môn, sydd ar ben gorllewinol Ffordd y Gogledd, fel porth y byd i Gymru, gan mai yno mae'r ail borthladd fferïau fwyaf yn y DU, yn ein cysylltu â'r Iwerddon. Mae dwy bont eiconig yn cysylltu Môn â thir mawr Cymru, ac felly mae'n hawdd teithio yma. Er mai bychan yw Môn, mae digonedd i'w wneud. Cewch filltiroedd maith o arfordir troellog, sy'n gartref i gildraethau cudd, traethau tywodlyd sydd wedi ennill gwobrau, a chlogwyni grymus. Os ewch yn ddyfnach i'r tir, byddwch yn darganfod tirwedd diamser lle mae bryniau a phantiau gleision yn frith o gladdfeydd hynafol, meini hirion a chofebau dirgel.



## Antur

Mae'r dyfroedd ar, ac o amgylch Môn yn llawn anturiaethau dŵr. Ewch ar **RibRide** cyflym **o Borth Daniel** i gael cip ar nodweddion arfordirol arbennig megis **Ynys Seiriol** a **Phont Grog hanesyddol Menai**. Fel arall, gallwch fynd i'r dŵr yn eich pwysau eich hun trwy gael caiac o **B-Active@Rhoscolyn**. Mae bae cysgodol Rhoscolyn yn berffaith i rwyfwyr ifanc ac amhrofiadol, tra bod modd i forwyr mwy anturiaethus ymuno â chwrs caiacio môr i ddarganfod clogwyni, ynysoedd ac ogofâu arfordirol Ynys Môn.

Croeswch y ffos sy'n amgylchynu **Castell prydferth Biwmares**. Dyma'r gaer ddiwethaf i Edward y Cyntaf ei hadeiladu yng Ngogledd Cymru, ac mae dyluniad hafalochrog unigryw y castell hefyd yn un o'r mwyaf blaengar. Nid oes ryfedd ei fod wedi ei ddynodi yn Safle Treftadaeth y Byd gan UNESCO.

Allwch chi ddim methu'r carchar a'r llys hanesyddol dros y ffordd, chwaith. Ewch yn ôl at arfordir gorllewinol Ynys Môn i ymweld â **Thrac Môn**, lleoliad chwaraeon modur heriol a chyffrous mewn lleoliad syfrdanol sy'n edrych allan dros Fôr Iwerddon gyda mynyddoedd Eryri i'w gweld yn y pellter.



Rhoscolyn, Ynys Môn

## Treftadaeth

Cymrwch gip yn ôl ar hanes pell Ynys Môn ym **Mryn Celli Ddu** ger Brynsiencyn, un o'r mwyaf trawiadol o blith sawl heneb Neolithig ar yr ynys. Unwaith y flwyddyn (adeg heuldro'r haf), mae pelydrau'r haul yn unioni fel eu bod yn goleuo siambrau mewnol tywyll yr heneb, sy'n dyst i ddyfeisgarwch y sawl a'i cododd, flynyddoedd maith yn ôl. Mae **Teyrnas Gopr** Amlwch ar arfordir y gogledd yn adrodd hanes y metel a fwyngloddiwyd yno ers yr Oes Efydd - metel a drawsnewidiodd y Chwyldro Diwydiannol ac a siapiodd y byd.

Yn **Oriel Ynys Môn** yn Llangefni, mae rhaglen newidiol o weithiau gan artistiaid Cymreig, ochr yn ochr ag arddangosfa barhaol a chynhwysfawr o baentiadau a darluniau gan **Syr Kyffin Williams**, brodor o Fôn ac artist adnabyddus a dreuliodd ei fywyd yn dal enaid tirluniau Gogledd Cymru ar gynfas.



Oriel Ynys Môn

## Tirwedd

O chwilio mannau cudd arfordir Môn, byddwch yn darganfod cyfoeth o drysorau cofiadwy. Saif eglwys wyngalchog **San Cwyfan** ar ei hynys fach ei hun ar yr arfordir gogledd-orllewinol, nad oes modd cael mynediad ati oni bai am lanw isel, ac mae'n leoliad heddychlon, braf.

Mae **Goleudy Ynys Lawd** a saif ar ynys serth a chreigiog ger Caergybi, yn un o eiconau Ynys Môn.  Mae 400 o grisiau yn eich tywys i lawr (ac yn ôl i fyny), ond mae'n werth gwneud y daith i gael golygfeydd syfrdanol o glogwyni garw sy'n ferw o adar môr nythol. Mae'r llwybr 6 milltir / 9.6km rhwng **Cemaes** a **Phorth Llechog** yn gyforiog o nodweddion arbennig, yn amrywio o gildraethau cudd a thraethau tywodlyd meddal i waddol treftadaeth ddiwydiannol megis **Gwaith Brics atmosfferig Porth Wen**.



Mynydd Parys

## Bwyd a Diod

O ddyfroedd arfordir Môn i fyrddau a cheginau rhai o fwytai gorau'r byd, mae blas **Halen Môn** yn creu cynnwrf ledled y byd. Dysgwch fwy a chael blas arno eich hun trwy fynd ar daith o amgylch y Tŷ Halen a'r Ganolfan Ymwelwyr ym Mrynsiencyn. Mae gan **Felin Llynon**, Llanddeusant, ddwy bluen yn ei chap: dyma'r unig felin wynt weithredol yng Nghymru, yn ogystal â bod y lle i fynd am rai o gacennau gorau'r wlad, wedi eu pobi gan y perchennog newydd, Richard Holt, pobydd crwst o Ynys Môn sydd wedi gweithio gyda rhai o enwau mwyaf y byd coginio.

Am bopeth o frechdanau i ginio Sul, rhowch gynnig ar **Fwyty'r Bay View** yng **Ngwesty'r Gadlys** Bae Cemaes. Ysbrydolir y fwydlen gan gynnyrch lleol megis cregyn gleision y Fenai, a gweinir y bwyd mewn ystafell fwyta ffasiynol gyda golygfeydd gwych dros y môr.

Melin Llynon



## Cerdded

Mae yna ddigon o liw i'w gael yng **Ngwarchodfa Natur Nant y Pandy** ger Llangefni; dyffryn serth a choediog sy'n gartref i was y neidr symudliw, glas y dorlan asur, a'r wiwer goch chwareus. O ymweld yn y gwanwyn, cewch hefyd ryfeddu at gwrlid o glychau'r gog a blodau'r gwynt (wood anemones). Rhowch gynnig ar y ras wythnosol yn y parc, sy'n her hyd yn oed i'r rhedwyr mwyaf brwd.

Erbyn hyn, mae bywyd gwyllt wedi adhawlio **Parc Gwledig y Morglawdd** a arferai fod yn chwarel brysur. Mae'r parc, sy'n cynnwys rhwydwaith o lwybrau cerdded, yn cynnwys arfordir creigiog, llynnoedd, clogwyni, oriel awyr agored a choetiroedd - a hyn oll dafliad carreg yn unig o borthladd byrlymus Caergybi.

Afon Braint



## Golff

Mae'r cwrs parcdir coediog yng **Nghlwb Golff Henllys** ger Biwmares yn cynnig golygfeydd heb eu hail dros y Fenai ac Eryri, ynghyd â ffyrdd teg gleision a phyllau dŵr naturiol llym. Mae cwrs naw twll **Storws Wen** ger Benllech yn adnabyddus am lewntydd a thyllau ymarfer o ansawdd. Dyma hefyd yw'r unig leoliad yn Ynys Môn lle gallwch roi cynnig ar golffdroed, amrywiad hwyliog ar y gamp draddodiadol. **Clwb Golff Porth Llechog** yw cwrs mwyaf gogleddol Cymru, ac mae'n gwneud defnydd da o'i dirwedd tonnog naturiol, ac yn herio chwaraewyr â chreigiau a llwyni eithin trwchus, wrth iddynt hefyd orfod wynebu awelon main o gyfeiriad Môr Iwerddon.

Clwb Golff Henllys




### Am fwy o wybodaeth

am bethau i'w gwneud a llefydd i aros ewch i:
**croesomon.co.uk**

# Lleoliadau Antur ar Ffordd y Gogledd


Zip World Quarry Karts


One Planet Adventure

## Allwedd Antur:

**1 Safle Treftadaeth y Byd Traphont a Chamlas Pontcysyllte**
Wrecsam LL14 3SG
pontcysyllte-aqueduct.co.uk

**2 Oneplanet Adventure**
Llandegla LL11 3AA
oneplanetadventure.com

**3 Canolfan Farchogaeth Bridlewood**
Ty'n-y-Morfa CH8 9JN
bridlewood.co.uk

**4 SC2 Y Rhyl**
Y Rhyl LL18 1BF
sc2rhyl.co.uk/cy/hafan/

**5 Tir Prince**
Towyn Road LL22 9NW
tirprince.co.uk

**6 Sŵ Fynydd Bae Colwyn**
Bae Colwyn LL28 5UY
welshmountainzoo.org/cy/

**7 Adventure Parc Snowdonia**
Dolgarrog LL32 8QE
adventureparcsnowdonia.com

**8 Zip World Chwarel y Penrhyn**
Bethesda LL57 4YG
zipworld.co.uk

**9 Rhwyf-fyrddio ar Lyn Padarn**
Llanberis LL55 4EL
snowdoniawatersports.com


**10 Parc Teuluol Gelli Gyffwrdd**
Y Felinheli LL56 4QN
greenwoodfamilypark.co.uk

**11 Rib Ride**
Porthaethwy LL59 5DE
ribride.co.uk/cy/

**12 Castell Biwmares**
Biwmares LL58 8AP
cadw.llyw.cymru/ymweld/lleoedd-i-ymweld/castell-biwmares

**13 B-Active - Rhoscolyn**
Rhoscolyn LL65 2NQ




AHNE
Ynys Môn
Caergybi
Llandudno
Conwy
Y Rhyl
Llanelwy
Treffynnon
Porthaethwy
Bangor
Caernarfon
Capel
Curig
Llanrwst
Betws-y-Coed
AHNE Bryniau Clwyd
a Dyffryn Dyfrdwy
Yr Wyddfa
1085m/3560tr
Blaenau Ffestiniog
Porthmadog
Parc
Cenedlaethol
Eryri
Llyn
Tegid
AHNE
Llŷn
Cricieth
Pwllheli
Harlech
Abersoch
Aberdaron
Llyn
Efyrnwy
Dolgellau
Abermaw
Cadair Idris
893m/2930tr
Tywyn
Machynlleth
Aberdyfi
Llyn
Clywedog
Borth
BAE CEREDIGION
Llanidloes
Aberystwyth
Pontarfynach
Cwm Elan
Rhaeadr Gŵy
Aberaeron
Llandrindod
Y Cei Newydd
Tregaron
Llanfair ym Muallt
Aberteifi
Llanbedr Pont Steffan
Y Gelli Gandryll
Trefdraeth
Crymych
Aberhonddu
Llyn Llangors
Parc Cenedlaethol
Bannau Brycheiniog
Pen y Fan
886m/2907tr
Y Fenni
Llyn Llys y Fran
Caerfyrddin
Arberth
Merthyr Tudful
AHNE
Dyffryn
Gwy
Dinbych-y-Pysgod
Rhondda
Cas-gwent
Abertawe
Pontypridd
AHNE
Gŵyr
Casnewydd
Caerdydd
1
2
3
4
5
6
7
8
9
10
11
12
13

# Lleoliadau Treftadaeth ar Ffordd y Gogledd


Castell Caernarfon


Teyrnas Gopr Amlwch

## Allwedd Treftadaeth:

1 **Tŷ Pawb**
Wrecsam LL13 8BY
typawb.wales

2 **Llyfrgell Gladstone**
Hawarden CH5 3DF
gladstoneslibray.com

3 **Rheilffordd Llangollen**
Llangollen LL20 8SN
llangollen-railway.co.uk

4 **Theatr Clwyd**
Yr Wyddgrug CH7 1YA
theatrclwyd.com

5 **Canolfan Grefftau Rhuthun**
Rhuthun LL15 1BB
canolfangrefftrhuthun.org.uk

6 **Castell Conwy**
Conwy LL32 8AY
cadw.llyw.cymru/ymweld/lleoedd-i-ymweld/castell-Conwy

7 **Yr Academi Frenhinol Gymreig**
Conwy LL32 8AN
rcaconwy.org

8 **Canolfan Ddiwylliant Conwy**
Conwy LL32 8NU
conwy.gov.uk/cy/Resident/Libraries-Museums-and-Archives/Conwy-Culture-Centre.aspx

9 **Castell Penrhyn**
Bangor LL57 4HT
nationaltrust.org.uk/cy_gb/castell-penrhyn


10 **Amgueddfa Lechi Cymru**
Llanberis LL55 4TY
amgueddfa.cymru/llechi


11 **Castell Caernarfon**
Caernarfon LL55 2AY
cadw.llyw.cymru

12 **Bryn Celli Du**
Llanddaniel Fab LL61 6EQ
cadw.llyw.cymru/ymweld/lleoedd-i-ymweld/siambr-gladdu-bryn-celli-ddu

13 **Oriel Ynys Môn**
Llangefni LL77 7TQ
kyffinwilliams.info

14 **Teyrnas Gopr Amlwch**
Amlwch LL68 9DB
copperkingdom.co.uk





14
AHNE
Ynys Môn
Caergybi
13
Llandudno
Conwy
Y Rhyl
7
6
8
Llanelwy
Treffynnon
Porthaethwy
12
Bangor
9
2
4
5
11
Caernarfon
Llanrwst
AHNE Bryniau Clwyd
a Dyffryn Dyfrdwy
10
Capel
Curig
Betws-y-Coed
1
Yr Wyddfa
1085m/3560tr
3
Blaenau Ffestiniog
Porthmadog
Parc
Cenedlaethol
Eryri
Llyn
Tegid
AHNE
Llŷn
Cricieth
Pwllheli
Harlech
Abersoch
Llyn
Efyrnwy
Aberdaron
Dolgellau
Abermaw
Cadair Idris
893m/2930tr
Tywyn
Machynlleth
Aberdyfi
Llyn
Clywedog
Borth
BAE CEREDIGION
Llanidloes
Aberystwyth
Pontarfynach
Cwm Elan
Rhaeadr Gŵy
Aberaeron
Llandrindod
Y Cei Newydd
Tregaron
Llanfair ym Muallt
Aberteifi
Llanbedr Pont Steffan
Y Gelli Gandryll
Trefdraeth
Crymych
Aberhonddu
Llyn Llangors
Llyn Llys y Fran
Caerfyrddin
Parc Cenedlaethol
Bannau Brycheiniog
Pen y Fan
886m/2907tr
Y Fenni
Arberth
Merthyr Tudful
AHNE
Dyffryn
Gwy
Dinbych-y-Pysgod
Rhondda
Cas-gwent
Abertawe
AHNE
Gŵyr
Pontypridd
Casnewydd
Caerdydd

# Lleoliadau Tirwedd ar Ffordd y Gogledd


Y Fenai


Gardd Bodnant

Gardd Bodnant © Dave Newbould

## Allwedd Tirwedd:

**1 Castell a Thraeth Y Fflint**
Flint CH6 5PH
cadw.llyw.cymru

**2 Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy**
clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk/cymraeg/

**3 Dyffryn Ceiriog**
Llanarmon DC LL20 7LD
thisiswrexham.co.uk/the-ceiriog-valley

**4 Twyni Cinmel**
Bae Cinmel LL18 5EQ
cy.visitconwy.org.uk/pethau-i-w-gwneud/twyni-cinmel-p314181

**5 Gardd Bodnant**
Tal y Cafn LL28 5RE
nationaltrust.org.uk/cy_gb/gardd-bodnant

**6 Bwlch Sychnant**
Conwy LL32 8BJ
cy.visitconwy.org.uk/pethau-i-w-gwneud/taith-uwchdir-pensychnant-p292001

**7 Parc Cenedlaethol Eryri**
visitsnowdonia.info/cy/parc-cenedlaethol-eryri


**8 Y Fenai**


**9 Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn**
visitsnowdonia.info/cy/llyn-ardal-o-harddwch-naturiol-eithriadol

**10 Eglwys San Cwyfan**
Aberffraw

**11 Llwybr Arfordir Cemaes**
Cemaes
croesomon.co.uk/cy/be-i-wneud/activities/cylchdeithiau-arfordirol-ynys-mon/#.XlaNgqZvjlU

**12 Goleudy Ynys Lawd**
Caergybi LL65 1YH
rspb.org.uk/reserves-and-events/reserves-a-z/south-stack-cliffs





AHNE Ynys Môn
Caergybi
Llandudno
Conwy
Y Rhyl
Llanelwy
Treffynnon
Porthaethwy
Bangor
Caernarfon
Capel Curig
Llanrwst
Betws-y-Coed
AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Yr Wyddfa
1085m/3560tr
Blaenau Ffestiniog
Porthmadog
Parc Cenedlaethol Eryri
Llyn Tegid
AHNE Llŷn
Cricieth
Pwllheli
Harlech
Abersoch
Aberdaron
Llyn Efyrnwy
Dolgellau
Abermaw
Cadair Idris
893m/2930tr
Tywyn
Machynlleth
Aberdyfi
Borth
Llyn Clywedog
BAE CEREDIGION
Aberystwyth
Llanidloes
Pontarfynach
Cwm Elan
Rhaeadr Gŵy
Aberaeron
Llandrindod
Y Cei Newydd
Tregaron
Llanfair ym Muallt
Aberteifi
Llanbedr Pont Steffan
Y Gelli Gandryll
Trefdraeth
Crymych
Aberhonddu
Llyn Llangors
Llyn Llys y Fran
Caerfyrddin
Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Pen y Fan
886m/2907tr
Y Fenni
Arberth
Merthyr Tudful
AHNE Dyffryn Gwy
Dinbych-y-Pysgod
Rhondda
Abertawe
Cas-gwent
Pontypridd
AHNE Gŵyr
Casnewydd
Caerdydd
1
2
3
4
5
6
7
8
9
10
11
12

# Lleoliadau Bwyd a Diod ar Ffordd y Gogledd


Ystâd Rhug



Dylans Porthaethwy

## Allwedd Bwyd a Diod:

1 **Ystâd Penarlâg**
Penarlâg CH5 3FB
hawardenestate.co.uk

2 **Bragdy Magic Dragon**
Wrecsam LL13 0SP
magicdragonbrewing.co.uk

3 **Ystâd Rhug**
Corwen LL21 0EH
rhug.co.uk

4 **Bryn Williams ym Mhorth Eirias**
Bae Colwyn LL29 8HH
portheirias.com/cy/

5 **Gwinllan Conwy**
Llangwstennin LL31 9JF
gwinllanconwy.co.uk

6 **Baravelli's**
Conwy LL32 8NG
baravellis.com

7 **Distyllfa Aber Falls**
Abergwyngregyn LL33 0LB
aberfallsdistillery.com/cy


8 **Caffi Blue Sky**
Bangor LL57 1PA
blueskybangor.co.uk

9 **Pant Du**
Caernarfon LL54 6HE
pantdu.co.uk

10 **Halen Môn**
Brynsiencyn LL61 6TQ.
halenmon.com/cy

11 **Gwesty'r Gadlys - Bwyty a Bar Bay View**
Cemaes LL67 0LH
gadlys.co.uk/hotel

12 **Melin Llynon**
Llanddeusant LL65 4AB
facebook.com/melinllynon




AHNE Ynys Môn
Caergybi
Llandudno
Conwy
Y Rhyl
Llanelwy
Treffynnon
Porthaethwy
Bangor
Caernarfon
Capel Curig
Llanrwst
AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Betws-y-Coed
Yr Wyddfa
1085m/3560tr
Blaenau Ffestiniog
Porthmadog
Parc Cenedlaethol Eryri
Llyn Tegid
AHNE Llŷn
Cricieth
Pwllheli
Harlech
Abersoch
Aberdaron
Llyn Efyrnwy
Dolgellau
Abermaw
Cadair Idris
893m/2930tr
Tywyn
Machynlleth
Aberdyfi
Llyn Clywedog
Borth
BAE CEREDIGION
Llanidloes
Aberystwyth
Pontarfynach
Cwm Elan
Rhaeadr Gŵy
Aberaeron
Llandrindod
Y Cei Newydd
Tregaron
Llanfair ym Muallt
Aberteifi
Llanbedr Pont Steffan
Y Gelli Gandryll
Trefdraeth
Crymych
c Cenedlaethol
fordir Penfro
Aberhonddu
Llyn Llangors
Llyn Llys y Fran
Caerfyrddin
Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Pen y Fan
886m/2907tr
Y Fenni
Arberth
Merthyr Tudful
AHNE Dyffryn Gwy
Dinbych-y-Pysgod
Rhondda
Cas-gwent
Abertawe
Pontypridd
AHNE Gŵyr
Casnewydd
Caerdydd
1
2
3
4
5
6
7
8
9
10
11
12

# Lleoliadau Cerdded ar Ffordd y Gogledd

## Allwedd Cerdded:

**1 Coed Plas Power**

**2 Parc Gwledig Loggerheads**
Loggerheads CH7 5LH
clwydianrangeanddeevalley aonb.org.uk/parc-gwledig -loggerheads-

**3 Dyffryn Maesglas**
Greenfield CH8 7GH
greenfieldvalley.com

**4 Llwybrau i gopa Pen y Gogarth**
cy.visitconwy.org.uk/ pethau-i-w-gwneud/ llwybraur-gogarth-p291761

**5 Llwybrau cerdded Mynydd Conwy**
conwy.gov.uk/cy/Resident/ Leisure-sport-and-health/ Coast-and-Countryside/ Walking-in-Conwy/ Walks-between-Conwy- and-Llanfairfechan/Conwy- Mountain-Walks.aspx

**6 Taith gerdded Llyn Crafnant**
Llanrwst OSMap OL17 Grid Ref: SH 756 618
naturalresources.wales/days- out/places-to-visit/north- west-wales/gwydir-forest- park/llyn-crafnant/?lang=cy

**7 Cylchdaith Abergwyngregyn**
visitsnowdonia.info/cy/ llwybr-arfordir-cymru- chylchdeithiau-cerdded


**8 Llwybr Llanberis i gopa'r Wyddfa**
visitsnowdonia.info/cy/ chwe-llwybr-i-copa- yr-wyddfa

**9 Taith gerdded Aberglaslyn, Llyn Dinas a Chwm Bychan**
LL55 4YH
nationaltrust.org.uk/ cy_gb/craflwyn-and- beddgelert/trails/ llwybr-cwm-bychan- a-cheunant-aberglaslyn

**10 Gwarchodfa Natur Nant y Pandy**
Llangefni LL77 7QE
croesomon.co.uk/cy/be -i-wneud/activities/ gwarchodfa-natur-leol- nant-y-pandy-llangefni/#. XbhzEpr7QdU

**11 Mynydd Parys**
Amlwch LL68 9RE
croesomon.co.uk/cy/ be-i-wneud/activities/ tirwedd-mynydd-parys/#. Xbhz15r7QdU

**12 Parc Gwledig y Morglawdd, Caergybi**
Caergybi LL65 1YG
croesomon.co.uk/cy/be-i- wneud/activities/ bywyd-gwyllt-parc- gwledig-y-morglawdd- caergybi/#.XbhzkZr7QdU





AHNE
Ynys Môn
Caergybi
11
12
10
Porthaethwy
Llandudno
4
Conwy
5
7
Bangor
Y Rhyl
3
Llanelwy
Treffynnon
Caernarfon
6
Llanrwst
Capel
Curig
AHNE Bryniau Clwyd
a Dyffryn Dyfrdwy
2
1
8
Yr Wyddfa
1085m/3560tr
Betws-y-Coed
Blaenau Ffestiniog
9
Porthmadog
Parc
Cenedlaethol
Eryri
Llyn
Tegid
AHNE
Llŷn
Cricieth
Pwllheli
Harlech
Abersoch
Aberdaron
Llyn
Efyrnwy
Dolgellau
Abermaw
Cadair Idris
893m/2930tr
Tywyn
Machynlleth
Aberdyfi
Llyn
Clywedog
Borth
BAE CEREDIGION
Llanidloes
Aberystwyth
Pontarfynach
Cwm Elan
Rhaeadr Gŵy
Aberaeron
Llandrindod
Y Cei Newydd
Tregaron
Llanfair ym Muallt
Aberteifi
Llanbedr Pont Steffan
Y Gelli Gandryll
Trefdraeth
Crymych
Aberhonddu
Llyn Llangors
Llyn Llys y Fran
Caerfyrddin
Parc Cenedlaethol
Bannau Brycheiniog
Pen y Fan
886m/2907tr
Y Fenni
Arberth
Merthyr Tudful
AHNE
Dyffryn
Gwy
Dinbych-y-Pysgod
Rhondda
Cas-gwent
Abertawe
AHNE
Gŵyr
Pontypridd
Casnewydd
Caerdydd

# Lleoliadau Golff ar Fforð y Gogleð

Clwb Golff Henllys



Clwb Golff Yr Wyddgrug



## Golf Key:

1. **Cwrs Golff y Plasau**
   Wrecsam LL13 0SP
   plassey.com/golf

2. **Clwb Golff Yr Wyddgrug**
   Pantymwyn CH7 5EH
   moldgolfclub.co.uk

3. **Clwb Golff Rhuddlan**
   Rhuddlan LL18 6LB
   rhuddlangolfclub.co.uk

4. **Clwb Golff Abergele**
   Abergele LL22 8DS
   abergelegolfclub.co.uk

5. **Clwb Golff Conwy (Sir Gaernarfon)**
   Conwy Morfa LL32 8ER
   conwygolfclub.com

6. **Clwb Golff Penmaenmawr**
   Penmaenmawr LL34 6RD
   pengolf.co.uk

7. **Clwb Golff Sant Deiniol**
   Bangor LL57 1PX
   bangorgolf.co.uk/hafan.html


8. **Clwb Golff Tref Frenhinol Caernarfon**
   Caernarfon LL54 5RP
   caernarfongolfclub.co.uk

9. **Clwb Golff Nefyn a'r Cylch**
   Nefyn LL53 6DA
   nefyn-golf-club.co.uk

10. **Clwb Golff Henllys, Biwmares**
    Biwmares LL58 8HU
    henllysgolfclub.co.uk

11. **Storws Wen**
    Brynteg LL78 8JY
    storwswen.co.uk

12. **Clwb Golff Porth Llechog**
    Bull Bay LL68 9RY
    bullbaygc.co.uk






12
AHNE
Ynys Môn
11
Caergybi
10
Llandudno
Conwy
5
Y Rhyl
3
4
6
7
Porthaethwy
Bangor
Llanelwy
Treffynnon
2
Caernarfon
8
Llanrwst
AHNE Bryniau Clwyd
a Dyffryn Dyfrdwy
Capel
Curig
Betws-y-Coed
Yr Wyddfa
1085m/3560tr
1
Blaenau Ffestiniog
Porthmadog
Parc
Cenedlaethol
Eryri
Llyn
Tegid
9
AHNE
Llŷn
Cricieth
Pwllheli
Harlech
Abersoch
Llyn
Efyrnwy
Aberdaron
Dolgellau
Abermaw
Cadair Idris
893m/2930tr
Tywyn
Machynlleth
Aberdyfi
Llyn
Clywedog
Borth
BAE CEREDIGION
Llanidloes
Aberystwyth
Pontarfynach
Cwm Elan
Rhaeadr Gŵy
Aberaeron
Llandrindod
Y Cei Newydd
Tregaron
Llanfair ym Muallt
Aberteifi
Llanbedr Pont Steffan
Y Gelli Gandryll
Trefdraeth
Crymych
c Cenedlaethol
fordir Penfro
Aberhonddu
Llyn Llangors
Llyn Llys y Fran
Caerfyrddin
Parc Cenedlaethol
Bannau Brycheiniog
Pen y Fan
886m/2907tr
Y Fenni
rdd
Arberth
Merthyr Tudful
AHNE
Dyffryn
Gwy
enfro
Dinbych-y-Pysgod
Rhondda
Cas-gwent
Abertawe
Pontypridd
AHNE
Gŵyr
Casnewydd
Caerdydd

## Ffordd Cymru

Mae Ffordd Cymru yn un daith epig gyda thri llwybr unigryw - Ffordd Cambria, Ffordd yr Arfordir a Ffordd y Gogledd. Mae'r llwybrau hyn yn mynd â chi ar hyd yr arfordir, trwy wlad y cestyll ac i ganol ein mynydd-dir mawreddog. Mae Ffordd Cambria yn croesi asgwrn cefn Cymru am 185 o filltiroedd / 300km rhwng Llandudno a Chaerdydd, trwy Barciau Cenedlaethol a Mynyddoedd Cambria. Mae Ffordd yr Arfordir yn rhedeg ar hyd arfordir y gorllewin o amgylch Bae Ceredigion, taith o 180 milltir / 290km rhwng y mynyddoedd a'r môr. Mae Ffordd y Gogledd yn mynd am 75 milltir / 120km heibio cestyll nerthol ac ymlaen trwy Ynys Môn.

Ffordd y Gogledd
Ffordd yr Arfordir
Ffordd Cambria



Cyhoeddwyd gan y Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau, Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH.
Hawlfraint ©2022.

**twristiaeth@gwynedd.llyw.cymru**

Ysgrifennwyd y testun golygyddol gan Writerog Ltd, Roger Thomas Freelance Services, **writerog.co.uk**
Dyluniwyd a chynhyrchwyd gan **viewcreative.co.uk**
Hawlfraint y ffotograffau: © Croeso Cymru, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam a Chyngor Sir y Fflint, a Dave Newbould.

fforddcymru.cymru

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government